

**Cofnodion cyfarfod rhif 76
Pwyllgor Cyngori Cymru
a gynhaliwyd yn Ofcom Cymru ar 11 Mawrth 2020**

Yn bresennol

Hywel Wiliam	Y Cadeirydd
Andrew Board	Aelod
Peter Trott	Aelod
Rem Noormohamed	Aelod
Robert Andrews	Aelod
Ruth McElroy	Aelod

Hefyd yn bresennol

David Jones	Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom (eitemau 1-10)
Aled Eirug	Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys
Rick Hill	Cadeirydd, Aelod o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau (yn absenoldeb Aelod Cymru)
Fiona Lennox	Cyfarwyddwr Gweithredol, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau
Eleanor Marks	Cyfarwyddwr Ofcom yng Nghymru
Elinor Williams	Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru
Joanna Davies	Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg, Ofcom Cymru (eitemau 1-10)
Meleri Evans	Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru
Emma McFadyen	Pennaeth Polisi Cyhoeddus
Liz Nash	Cynorthwydd Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru
Cydweithwyr eraill yn Ofcom	

Cydweithwyr o Channel 4

Eitemau ar yr Agenda

Cyflwyniad

1. Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 76 Pwyllgor Cyngori Cymru.

Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar

2. David Jones – Aelod o'r Cyngor Cysylltu Technoleg (ESTnet gynt)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2019 a materion yn codi – Cofnodion Pwyllgor Cyngori Cymru 76(3)

3. Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2019 eu **CYMERADWYO**, yn amodol ar fân newidiadau.

4. **Materion yn codi -**

- Eitem 8 (9) - Cafodd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg. Dywedodd cydweithwyr Ofcom fod papur i fod i gael ei gyflwyno i Fwrdd Rheoli Polisi Ofcom yng nghyfarfod mis Mai, yn tynnu sylw at y risgiau presennol. Cafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr adolygiad diweddar o swyddfa Ofcom Cymru. Dywedodd staff Ofcom y byddai swyddfa Cymru ar gau am bythefnos o 16 Mawrth ymlaen, oherwydd y gwaith ehangu ac adnewyddu. Byddai'r holl staff yn gweithio o bell ac ar gael yn ôl yr arfer.

- Eitem 8 (10) - Oherwydd cyfyngiadau amser, nid oedd y Pwyllgor wedi gallu ymateb i'r ymgynghoriad NGA, ond bydd yn rhoi adborth pan gyhoeddir y Datganiad.
- Eitem 8 (12) – Dim gwybodaeth bellach ar hyn o bryd.
- Eitem 9 (13) – Dywedodd aelod nad oedd gwahoddiad wedi dod i law i fynychu cyfarfodydd Hyb Cymru y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau. Byddai staff Ofcom yn ymchwilio i hynny.
- Eitem 9 (14) – Byddai canfyddiadau ymchwil yn cael eu cyflwyno'n nes ymlaen yn y cyfarfod, o dan eitem 11 (Y Diweddaraf gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau).
- Eitem 14 (25) – Dywedodd staff Ofcom Cymru eu bod wedi gohirio'r holl ddigwyddiadau ar hyn o bryd oherwydd y Coronafeirws – yn dilyn cyngor gan Lundain. Roedd hyn yn cynnwys y digwyddiad dilynol a drefnwyd ar gyfer Trafodaeth Fawr: Sgrin Fach yng Nghaerfyrddin ym mis Ebrill.

Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar

5. Rhoddodd y Cadeirydd grynodedb ar lafar o'r hyn mae wedi'i gyflawni ers y cyfarfod diwethaf, a oedd yn cynnwys:

- Gwaith parhaus ar Barciau Busnes a chysylltedd band eang, a chwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru.
- Bu Peter Trott yn nigwyddiad y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol yn Llundain (y nodiadau cefndir i'w rhannu).
- Parhau â'r gwaith ar yr Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (trafodaeth fewnol rhwng yr Aelodau i ddilyn).
- Cafwyd adborth yn dilyn digwyddiad Cynllun Gwaith Ofcom.
- Wedi bod yn nigwyddiad Cymru Greadigol.
- Roedd cais wedi dod i law gan y Pwyllgor Diwylliant a'r Gymraeg i gymryd rhan mewn trafodaeth ynghylch Datganoli Darlledu. Awgrymwyd y gallai'r Cadeirydd a'r Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys gwrdd â Helen Mary Jones AC i ddechrau, sy'n cadeirio'r Pwyllgor ar hyn o bryd.
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am fynychu WISP (Partneriaeth Diogelwch ar y Rhyngwrdd Cymru). Gofynnwyd i'r Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd fynd i'r cyfarfod nesaf ar 29 Ebrill.
- Mae bwriad i fynd i gynhadledd VLV ar 30 Ebrill.
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad Archwilio Cyfryngau'r Sefydliad Materion Cymreig (ar y cyd â Ruth McElroy). Byddai'r Aelodau ac Ofcom Cymru yn ystyried cynnal digwyddiad cyn neu ar ôl y Pasg (digwyddiad ar-lein o bosib, gan nad oes digwyddiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal ar hyn o bryd).

Y Diweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom – ar lafar

6. Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y pynciau diweddar a drafodwyd gan Fwrdd Ofcom. Dyma rai o'r meysydd a gafodd sylw: band eang; gwasanaethau symudol; adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus; y BBC. Derbyniodd yr aelodau ddatganiad i'r wasg a oedd yn sôn am benodi Prif Weithredwr newydd Ofcom, Melanie Dawes, ac roedd yn cynnwys crynodeb o'i chefnidir a'i phrofiad.

7. Trafododd yr aelodau oblygiadau bwriad y Llywodraeth i benodi Ofcom fel y rheoleiddiwr Niwed Ar-lein, ac effaith y cyfrifoldeb ychwanegol hwn. Disgwylir penderfyniad terfynol ddiwedd mis Mai/Mehefin.

8. Cafodd yr aelodau wybod am gynlluniau Ofcom i gynnal 'diwrnod prawf' ar 17 Mawrth, pan fyddai gofyn i'r holl weithwyr weithio gartref i brofi capasiti a gallu seilwaith TG y sefydliad. Trafododd yr aelodau oblygiadau hynny.

Y Diweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom

9. Roedd papur diweddarau wedi dod i law, a oedd yn sôn am faterion sy'n cael eu hystyried gan y Bwrdd Cynnwys – gan gynnwys rheoliadau ar gynnwys ar-lein; cynlluniau i reoleiddio llwyfannau rhannu fideo dros dro; newidiadau arfaethedig i'r Cod Darlledu er mwyn cynnwys gwarchodaeth arbennig ar gyfer plant, a'r gofyniad i lwyfannau ddileu cynnwys anghyfreithlon. Bu'r aelodau hefyd yn trafod prawf lles y cyhoedd y mae'r BBC yn ei gynnal ynghylch stiwdios a dyfodol ffi'r drwydded. Nodwyd bod yr ymweliad â phencadlys newydd y BBC yn hynod lwyddiannus, ac wedi cael ei werthfawrogi gan y rheini a oedd yn bresennol.

Channel 4 – cyflwyniad blynyddol

10. Croesawodd y Cadeirydd y cydweithwyr o Channel 4, a fu'n rhoi cyflwyniad cynhwysfawr ar y gweithgarwch presennol, ac yn ateb cwestiynau gan yr Aelodau. Roedd y pynciau'n cynnwys y prif flaenoriaethau a amlinellwyd gan y Prif Weithredwr yn 2018, sef: bod yn gwbl berthnasol yn yr oes ddigidol; bod yn ddeniadol i gynulleidfaoedd iau, a bod yn fwy amrywiol.

11. Rhoddodd y tîm drosolwg ar gyfer 2020, gan amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y DU. Roedd gan C4 dair elfen o ymrwymadau: cynyddu'r gwariant ar gynnwys y tu allan i Lundain; creu swyddi ychwanegol yn y gwledydd a'r rhanbarthau gyda chanolfannau newydd y tu allan i Lundain (gan gynnwys Bryste), a chynyddu cynrychiolaeth ranbarthol C4 gyda thair canolfan Channel 4 News yn Leeds, Glasgow a Chaerdydd.

12. Diolchodd y Cadeirydd i gydweithwyr Channel 4 am ymuno â'r cyfarfod, a chytunodd staff Ofcom Cymru i rannu'r manylion cyswllt â'r Aelodau a chydweithwyr Ofcom.

Adroddiad – Polisi Cyhoeddus

13. Ymunodd un o gydweithwyr Ofcom â'r cyfarfod. Roedd yr Aelodau wedi derbyn papur yn barod, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau allweddol Llywodraeth a Senedd y DU ers y cyfarfod diwethaf. Dyma rai o'r materion a nodwyd: ymrwymiad y Llywodraeth i wario £5bn ar seilwaith; ad-drefnu'r Llywodraeth a phenodi Oliver Dowden yn Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon; yr wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau ynghylch y Rhwydwaith Gwledig a Rennir; rheoleiddio ar-lein, a dyletswyddau newydd Ofcom o ran Llwyfannau Rhannu Fideo.

Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru

14. Nododd yr aelodau gynnwys papur diweddarau a oedd wedi cael ei rannu'n barod. Tynnodd Cyfarwyddwr Cymru sylw at rai o'r uchafbwyntiau, gan gynnwys:

- Roedd un o gydweithwyr Ofcom wedi bod yn lansiad Canolfan Greadigol Channel 4 ym Mryste.
- Trafodaeth bwrdd crwn am ddiffodd PSTN, a chyfarfodydd cydweithwyr gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i gynllunio digwyddiad ar draws y sector cyhoeddus yn y dyfodol. Mewn ymateb i ymholiad Aelod ynghylch sut roedd Ofcom yn bwriadu cydweithio â sectorau, cadarnhaodd yr Aelod Bwrdd ar ran Cymru fod Ofcom wrthi'n trafod â Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd. Disgwylir y bydd yn cael ei ddiffodd yn 2025. Gofynnodd yr aelodau a fyddai modd i gydweithwyr Ofcom roi'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Cyngori Cymru ym mis Mehefin.
- Ymweliad llwyddiannus â phencadlys y BBC.
- Soniodd y Cyfarwyddwr am gyfarfodydd a oedd wedi'u trefnu: Roedd digwyddiad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr yng Nghaerfyrddin, a'r digwyddiad cyfryngau plant, wedi'u gohirio oherwydd y coronafeirws. Roedd Ofcom wrthi'n asesu ei bresenoldeb mewn digwyddiadau, a rhyngweithio â

rhanddeiliaid. Trafododd yr aelodau'r posibilrwydd o fwrw ymlaen â digwyddiadau drwy borth ar-lein, a defnyddio'r wefan newydd sydd wedi cael ei chreu ar gyfer Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.

- Y diweddaraf am recriwtio aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau – yn aros am sêl bendith yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar hyn o bryd.
- Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Cyfarwyddwr i edrych yn rheolaidd ar eu cyfrifon e-bost Ofcom, ac i roi gwybod i'r tîm cymorth TG lleol os oes angen cymorth arnynt.

15. Cafwyd trafodaeth hir am restru digwyddiadau Rygbi'r Chwe Gwlad fel digwyddiad B, ac nid digwyddiad A. Teimlai'r aelodau'n gryf y dylid rhoi gwybod i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am anfonlonrwydd y Pwyllgor, gan eu bod yn ymwybodol bod y Llywodraeth yn amharod i adolygu'r dosbarthiad. Cyfeiriodd un aelod at daith y Llewod yn Seland Newydd fel enghraifft. Roedd y Pwyllgor eisiau i'r llythyr am y Chwe Gwlad gael ei anfon i Ofcom ac yna'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan anfon copi at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon yn Llywodraeth Cymru.

Dadansoddiad o'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol – crynodeb ar lafar

16. Ymunodd cydweithwyr Ofcom â'r cyfarfod, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Byddai'r mwyafrif helaeth o adeiladau sy'n gymwys ar hyn o bryd yn derbyn darpariaeth o fewn 12 mis.
- Roedd BT yn postio gohebiaeth i bob cartref cymwys, ac yn cysylltu ag awdurdodau lleol.
- Cyflwynodd y tîm ddata a oedd yn ymwneud â Chymru. Roedd ychydig o dan 15,000 o adeiladau cymwys yng Nghymru. Roedd 13,000 ohonyn nhw mewn lleoliadau gwledig, a 1500 mewn lleoliadau trefol. Roedd Ofcom yn bwriadu cyhoeddi dadansoddiad technegol ym mis Ebrill. Dywedodd y tîm y bu'n rhaid ailredeg rhywfaint o'r data a gafwyd gan BT ar gyfer adroddiad Ofcom ar Gysylltu'r Gwledydd, oherwydd gwall gyda'r data.
- Trafododd yr aelodau'r posibilrwydd y byddai aelwydydd yn gallu cyfuno trothwyon costau o £3,400. Byddai BT yn cynnal arolwg i asesu hyblygrwydd y cynnig.

Y Diweddaraf gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau

17. Roedd yr aelodau wedi derbyn adroddiad diweddar a oedd wedi cael ei ddarparu'n barod.

18. Cyflwynodd cydweithiwr o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ganlyniadau ei ymchwil "Peidiwch â'm datgysylltu (Don't Cut me Off)", ar brofiadau o wasanaeth cwsmeriaid ymysg defnyddwyr cyfathrebiadau sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn y DU. Byddai dolen i'r gwaith ymchwil a gyhoeddwyd yn cael ei rannu â'r Aelodau.

19. Trafododd yr aelodau argymhellion yr Adroddiad, a'r ymateb iddo yn hybiau rhanddeiliaid y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau. Cytunwyd ar lefelau uchel o ymrwymiad y llynedd, ac yr oeddent bellach yn cael eu hehangu drwy ei Siarter Defnyddwyr.

Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus – trafodaeth yr Aelodau

20. Cyflwynodd y Cadeirydd ei deimladau am y sefyllfa bresennol, a chafwyd trafodaeth fywiog yn dilyn hynny. Byddai sleidiau'n cael eu rhannu â'r Aelodau.

21. Cytunodd y Pwyllgor ar ffordd ymlaen, gan drafod yr effeithiau a'u perthnasedd i Gymru. Byddai'r Cadeirydd ac Aelod a enwebir yn rhannu amlinelliad drafft â'r Aelodau, a bydden nhw'n ei lenwi fel sail ar gyfer trafodaeth bellach.

22. Nododd cydweithwyr Ofcom Cymru gynnwys y drafodaeth.

Unrhyw fater arall, ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol

23. Nodwyd bod cyfnod aelodaeth rhai o'r Aelodau ar fin dod i ben. Byddai cydweithwyr Ofcom yn trafod â'r Aelodau hynny y posibilrwydd o ymestyn/terfynu yr aelodaeth. Byddai proses recriwtio'n cael ei rhoi ar waith cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

24. Eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol: Diffodd PSTN DJ i gysylltu â Lee Waters i gynnig bod rhestr o wasanaethau deialu PSTN ar draws y sector cyhoeddus yn cael ei gwneud yn orfodol.

Eitemau er gwybodaeth – Nodwyd

Dyddiad: _____

Y Cadeirydd

[tynnu ar gyfer cofnodion a gyhoeddir]